# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mercher, 23 Hydref 2013**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Pleidleisiau a Thrafodion

(158)

### 1 Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Gofynnwyd y 15 cwestiwn. Cafodd cwestiynau 3 a 10 eu grwpio.

### 2 Cwestiynau i'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth

Dechreuodd yr eitem am 14.15

Gofynnwyd y 15 cwestiwn.

**Cwestiwn Brys**

Dechreuodd yr eitem am 14.54

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** Yn dilyn y datganiadau a wnaed gan Brif Weinidog Cymru a Chyfarwyddwr Gwasanaethau Clinigol Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda y bydd llawdriniaethau orthopedig yn cael eu gohirio dros y gaeaf, a wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch y cymorth a roddir i gleifion a fydd yn gorfod aros yn hirach am driniaeth oherwydd y penderfyniad hwn?

### 3 Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad

Dechreuodd yr eitem am 15.08

Gofynnwyd y cwestiwn.

## 4 Cynnig i ddirymu Rheoliadau Addysg (Hysbysiadau Cosb) (Cymru) 2013

Dechreuodd yr eitem am 15.10

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

**NDM5307 Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 27.2:

Yn cytuno bod Rheoliadau Addysg (Hysbysiadau Cosb) (Cymru) 2013, a osodwyd gerbron y Cynulliad ar 12 Awst 2013, yn cael eu dirymu.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 17 | 10 | 28 | 55 |

**Gwrthodwyd y cynnig.**

## 5 Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ar yr Ymchwiliad i Addasiadau yn y Cartref

Dechreuodd yr eitem am 15.39

**NDM5339 Christine Chapman (Cwm Cynon)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol am ei Ymchwiliad i Addasiadau yn y Cartref a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 17 Gorffennaf 2013.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 6 Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Deisebau ar Sefydlu Tîm Criced Cenedlaethol i Gymru

Dechreuodd yr eitem am 16.26

**NDM5340 William Powell (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Deisebau ar Sefydlu Tîm Criced Cenedlaethol i Gymru, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 1 Mai 2013.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 7 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig

Dechreuodd yr eitem am 17.11

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a’r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM5341 William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod bod bylchau cyrhaeddiad mewn addysg yng Nghymru, sy'n dal grwpiau gwahanol o blant yn ôl;

2. Yn credu y gall y rhai hynny nad ydynt yn cyrraedd eu potensial llawn yn aml deimlo wedi'u difreinio, a gall hyn arwain at broblemau yn ddiweddarach mewn bywyd;

3. Yn cydnabod ymhellach bod symud rhwng addysg gynradd ac uwchradd yn newid mawr ar gyfnod sydd eisoes yn anodd o ran datblygiad plentyn; a

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau nad oes tarfu ar ddysgu yn ystod y cyfnod hwn drwy weithredu strategaeth addysg 8-14 oed gadarn a phenodol.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 12 | 0 | 43 | 55 |

**Gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Elin Jones (Ceredigion)**

Cynnwys ar ddiwedd pwynt 1 ‘, yn arbennig y bwlch rhwng cyrhaeddiad ac amddifadedd’

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 50 | 0 | 5 | 55 |

**Derbyniwyd gwelliant 1.**

**Gwelliant 2 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Cynnwys ar ddiwedd pwynt 1:

‘ac yn croesawu’r cynnydd yn y Grant Amddifadedd Disgyblion a gyhoeddwyd yng Nghyllideb Ddrafft 2014-15, a fydd yn helpu i dorri’r cyswllt rhwng tlodi a thangyflawni addysgol.’

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 43 | 12 | 0 | 55 |

**Derbyniwyd gwelliant 2.**

**Gwelliant 3 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Cynnwys pwynt 3 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

Yn cydnabod bod gofalwyr ifanc yn benodol mewn perygl yn aml o dangyflawni’n addysgol oherwydd yr heriau ychwanegol y maen yn eu wynebu, ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i edrych ar ffyrdd o wella sut y mae adnabod gofalwyr ifanc a’u cefnogi er mwyn eu helpu i gyflawni eu potensial addysgol a’u cefnogi wrth iddynt ddatblygu i fod yn oedolion.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 3:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 55 | 0 | 0 | 55 |

**Derbyniwyd gwelliant 3.**

**Gwelliant 4 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Cynnwys ar ddiwedd pwynt 3:

‘ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i ffurfioli partneriaethau rhwng ysgolion a sicrhau bod yr addysg blynyddoedd cynnar yn cynnig cydbwysedd gwell o addysgu bugeiliol ac academaidd, i helpu i wella’r broses pontio disgyblion o ysgolion cynradd i ysgolion uwchradd.’

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 4:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 55 | 0 | 0 | 55 |

**Derbyniwyd gwelliant 4.**

**Gwelliant 5 - Elin Jones (Ceredigion)**

Ym mhwynt 4 dileu ‘a phenodol.’

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 5:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 55 | 0 | 0 | 55 |

**Derbyniwyd gwelliant 5.**

**Gwelliant 6 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Cynnwys ar ddiwedd pwynt 4:

‘ac i gefnogi disgyblion i gyrraedd eu potensial llawn drwy ddiwygio’r system bandio ysgolion i sicrhau ei bod yn mesur perfformiad ysgol yng nghyd-destun perfformiad disgyblion unigol.’

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 6:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 44 | 10 | 0 | 54 |

**Derbyniwyd gwelliant 6.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig wedi’i ddiwygio:**

**NDM5341 William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod bod bylchau cyrhaeddiad mewn addysg yng Nghymru, sy'n dal grwpiau gwahanol o blant yn ôl, yn arbennig y bwlch rhwng cyrhaeddiad ac amddifadedd ac yn croesawu’r cynnydd yn y Grant Amddifadedd Disgyblion a gyhoeddwyd yng Nghyllideb Ddrafft 2014-15, a fydd yn helpu i dorri’r cyswllt rhwng tlodi a thangyflawni addysgol;

2. Yn credu y gall y rhai hynny nad ydynt yn cyrraedd eu potensial llawn yn aml deimlo wedi'u difreinio, a gall hyn arwain at broblemau yn ddiweddarach mewn bywyd;

3. Yn cydnabod bod gofalwyr ifanc yn benodol mewn perygl yn aml o dangyflawni’n addysgol oherwydd yr heriau ychwanegol y maen yn eu wynebu, ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i edrych ar ffyrdd o wella sut y mae adnabod gofalwyr ifanc a’u cefnogi er mwyn eu helpu i gyflawni eu potensial addysgol a’u cefnogi wrth iddynt ddatblygu i fod yn oedolion ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i ffurfioli partneriaethau rhwng ysgolion a sicrhau bod yr addysg blynyddoedd cynnar yn cynnig cydbwysedd gwell o addysgu bugeiliol ac academaidd, i helpu i wella’r broses pontio disgyblion o ysgolion cynradd i ysgolion uwchradd;

4. Yn cydnabod ymhellach bod symud rhwng addysg gynradd ac uwchradd yn newid mawr ar gyfnod sydd eisoes yn anodd o ran datblygiad plentyn; a

5. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau nad oes tarfu ar ddysgu yn ystod y cyfnod hwn drwy weithredu strategaeth addysg 8-14 oed gadarn ac i gefnogi disgyblion i

gyrraedd eu potensial llawn drwy ddiwygio’r system bandio ysgolion i sicrhau ei bod yn mesur perfformiad ysgol yng nghyd-destun perfformiad disgyblion unigol.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 27 | 0 | 28 | 55 |

**Gwrthodwyd y cynnig wedi’i ddiwygio.**

**Cyfnod Pleidleisio**

Dechreuodd yr eitem am 18.03

**8 Dadl Fer**

Dechreuodd yr eitem am 18.08

**NDM5338 Suzy Davies (Gorllewin De Cymru):** Bae Abertawe Dinas Diwylliant - cyfle creadigol i'r economi.

Cais Rhanbarth Bae Abertawe ar gyfer Dinas Diwylliant y DU 2017 a'r manteision i economi Cymru yn sgîl cais llwyddiannus.

Daeth y cyfarfod i ben am 18:24

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30, Dydd Mawrth, 5 Tachwedd 2013**